



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU
DYDD MERCHER 13 HYDREF 2021
TRWY GYFRWNG ZOOM, 7.00YH**

COFNODION

CADEIRYDD@ Miss Sian Healey

IS-GADEIRYDD: Miss Sioned Davies

PRESENNOL:

Sian Healey (Cadeirydd y Pwyllgor), Sioned Davies (Ceredigion), Elen Williams (Morgannwg), Ffion Rees (Sir Gaerfyrddin), Sion Evans (Sir Gaerfyrddin), Rhiannon Davies (Ceredigion), Delun Evans (Sir Benfro), Gwyneth Thomas (Trefnydd Ffederasiwn Morgannwg), Caryl Hâf Jones (Cadeirydd CFFI Cymru), Hefin Evans (Is-gadeirydd CFFI Cymru), Eloisa Isaac (Maldwyn) James Nixon (Maesyfed), Elizabeth Swancott (Maesyfed), Emma Rees (Brycheiniog), Katie Matthews (Gwent), Will Hughes (Ynys Môn), Deryn Evans (Brycheiniog), Emma Powell (Brycheiniog), Kate Thomas (Morgannwg)

HEFYD YN BRESENNOL: Mared Jones (Cyfarwyddwr Dros Dro CFFI Cymru), Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol CFFI Cymru)

C/16/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Fa wnaeth y Cadeirydd Siân Healey groesawu pawb i gyfarfod yr is-bwyllgor cystadlaethau, a chyn cychwyn, gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

Nododd Siân fod y cyfarfod yn cael ei recordio.

C/17/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: Aelodau Eryri

C/18/2022 CADARNHAU'R COFNODION

Rhannwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar y sgrin a darllenwyd hwy a chadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Eloisa Isaac (Maldwyn)

Eilydd: Katie Matthews (Gwent)

C/19/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Yr oedd un mater yn codi ynghylch cystadleuaeth Cywain. Gobeithid yn wreiddiol y byddai'r rysait buddugol yn cael ei arddangos yn fyw yn stonidn Hybu Cig Cymru yn y Ffair Aeaf. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau presennol, ni fydd unrhyw arddangosfa na samplu bwyd yn digwydd eleni.

Hefyd, nodwyd yn wreiddiol mai A3 oedd maint y bwrdd naws, ond teimlid fod llawer o wybodaeth i'w gynnwys mewn bwrdd o'r maint hwn. Penderfynwyd newid y geiriad i "Uchafswm o A2".

Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn newid rheol Cystadleuaeth Cywain ac yn e-bostio'r diweddariad at y siroedd.

C/20/2022 GOHEBIAETH

E-bost CAFC – mae CFFI Cymru wedi cael e-bost oddi wrth Tracy Powell, Swyddog Rhaglen CAFC, ynghylch y gystadleuaeth cneifio â gwelleifiau i ddechreuwyd.

Dywedodd Siân fod CFFI Cymru wedi ychwanegu cneifio â gwelleifiau at reolau CAFC. Cytunodd y pwyllgor i dderbyn eu cynnig ac anfon gwybodaeth at yr holl siroedd.

Mae hyfforddiant am ddim ar gael, ac os oes gan unrhyw sir ddiddordeb, dylent gysylltu â Rhydian Evans, cynrychiolydd cneifio CFFI Cymru.

Ymholiad gan Ffederasiwn Brycheiniog – Ynghylch y gystadleuaeth ffensio, ar hyn o bryd, mae rheolau CFFI Cymru a rheolau FfCCFFI yn wahanol. Wedi trafodaeth, cytunodd y pwyllgor y dylai rheolau CFFI Cymru fod yr un fath â rhai FfCCFFI. Dylai'r rheolau diweddaredig gael eu hanfon at bob swyddfa sirol.

Pwynt Gweithredu 2: bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau'r Cneifio â Gwelleifiau ac yn anfon diweddariad at y siroedd a ddylai gynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant cneifio.

Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau'r rheolau ffensio ac yn anfon rheolau diweddaredig y Diwrnod Gwaith Maes at y siroedd.

C/21/2022 CADARNHAU RHEOLAU CYFFREDINOL

Rhannwyd y rheolau diweddaredig ar y sgrin. Cyfeiriodd Sian at y rhai oedd wedi'u hychwanegu.

Nododd Sian eu bod wedi cael un gwelliant gan staff y siroedd. Fe wnaethant awgrymu y dylid diddymu'r ffi ymgeisio o £250 ar gyfer y Wledd o Adloniant, ac os na fydd sir yn cystadlu, dylid anfon dirwy atynt wedi'r digwyddiad. Roedd y pwyllgor yn fodlon derbyn y gwelliant hwn.

Cynigydd: Elen Williams (Morgannwg)

Eilydd: Ffion Rees (Sir Gaerfyrddin)

C/22/2022 CADARNHAU TREFNIADAU

1. Cynllun Wrth Gefn – Barnu Stoc

Gofynnodd Sian i bob sir am eu hadborth.

Dywedodd Ffion Rees nad oedd aelodau Sir Gaerfyrddin yn dymuno gweld barnu stoc rhithwir mewn cynllun wrth gefn. Byddent yn fodlon dilyn cynllun wrth gefn FfCCFFI, sef defnyddio ŵyn tewion os na fydd unrhyw dda byw eraill ar gael.

Dywedodd Delun Evans y byddai cystadlaethau Sir Benfro yn digwydd yn ddiweddarach y noson honno, ond awgrymodd y dylid dilyn cynllun wrth gefn FfCCFFI ag ŵyn tewion.

Nododd Sioned Davies o Geredigion na fyddai eu haelodau yn dymuno gweld cystadlu rhithwir neu deithio'n bell yn cael eu cyflwyni fel cynllun wrth gefn. Dylid dilyn yr un drefn â FfCCFFI. Nid oedd pwyllgor cystadlaethau Ceredigion wedi cael ei gynnal.

Awgrymodd Brycheiniog y dylem ddefnyddio ŵyn tewion fel cynllun wrth gefn ac ni fuasent yn argymhell defnyddio ceffylau neu farnu rhithwir.

Nododd Katie Matthews o Went y byddai cynnal y gystadleuaeth mewn sir ble mae stoc yn llai o broblem yn un dewis. Pe bai teithio i farnu gwahanol stoc yn cael ei gyflwyno, dylai CFFI Cymru ddarparu cludiant ar gyfer aelodau.

Nododd Kate Thomas o Forgannwg nad oedd eu cyfarfod hwy wedi cael ei gynnal. Ond byddai'n well gan y sir ŵyn tewion fel cynllun wrth gefn yn hytrach na cheffylau.

Nododd Liz Swancott o Faesyfed nad oeddent wedi cynnal eu cyfarfod. Ond maent wedi cael rhywfaint o drafodaethau gydag aelodau, ac ni fyddai aryneilio rhwng gwartheg godro a gwartheg biff yn ddewis iddynt hwy, oherwydd dim ond un fferm laeth sydd yn y sir. Ni fuasent yn hoffi gweld ceffylau yn cael eu cyflwyno i'r gystadleuaeth stocmon.

Nododd Eloisa Isaac o Faldwyn nad oedd eu cyfarfod wedi cael ei gynnal, ond byddai'n well ganddynt ŵyn tewion na cheffylau.

Nododd Will Hughes, Ynys Môn, na fyddai ceffylau yn ddewis oherwydd mae nifer y cystadleuwyr yn isel fel arfer ar gyfer y gystadleuaeth hon. Buasent yn fodlon defnyddio ŵyn tewion fel cynllun wrth gefn.

Wedi adborth, roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Defnyddio ŵyn tewion fel cynllun wrth gefn a dilyn arweiniad FfCCFFI
- Peidio cynnwys barnu rhithwir na barnu ceffylau
- Ar y cyfan, byddai aelodau'n fodlon teithio ar yr amod bod hynny'n cael ei gynllunio'n dda.

Nododd Sian y byddai'n cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf oherwydd mae sawl sir heb gynnal cyfarfod i drafod y mater â'u haelodau.

Pwynt Gweithredu 4: bydd CFFI Cymru yn cynnwys y cynllun wrth gefn newydd yn y Rheolau Cyffredinol a'r rheolau barnu stoc.

2. Eisteddfod – 20 Tachwedd 2021

Nodwyd, fel rhan o asesiad risgiau Eisteddfod CFFI Cymru, pe bai aelod yn cael prawf positif cyn yr Eisteddfod, byddai ymgeiswyr rhithwir yn cael eu derbyn. Gofynnodd Sian i'r pwyllgor am adborth ynghylch hyn.

Nododd Mared fod rhai o'r swyddogion a'r staff wedi cael cyfarfod gyda Telesgop a Rondo ynghylch darlledu'r Eisteddfod. Byddai cyflwyno elfen rithwir yn bosibl, ond byddai'n golygu costau ychwanegol a chymhlethdodau technegol ar gyfer y digwyddiad.

Trafodwyd sawl opsiwn, ond cytunodd y pwyllgor, er mwyn sicrhau tegwch i bob aelod, na fyddai cystadlu rhithwir yn cael ei gyflwyno. Os bydd aelod/grŵp yn cael prawf positif ar gyfer COVID, byddai'r cystadleuydd/cystadleuwyr yn yr ail safle yn cael cynnig cyfle i fynd ymlaen i Eisteddfod Cymru.

Cynigydd: Siôn Evans, Sir Gaerfyrddin

Eilydd: Eloisa Isaac, Maldwyn

Yn dilyn y penderfyniad hwn, gofynnodd Sian i'r pwyllgor am gytuno ar ddyddiad cau ar gyfer newid cystadleuwyr er mwyn i gyfeilyddion gael amser i ddysgu'r darn.

Cytunodd y pwyllgor y dylai staff a swyddogion CFFI Cymru drafod â'r cyfeilwyr a gwneud penderfyniad yn dilyn y sgwrs honno.

Atgoffwyd pob aelod, pe bai aelodau yn camu i mewn ar y funud olaf â darn cerddorol newydd, dylid rhoi tegwch i'r holl gyfeilwyr oherwydd na fyddent wedi cael y darn ymlaen llaw cyn yr Eisteddfod.

Fe wnaeth Sian hysbysu pawb oedd yn bresennol y bydd angen prynu tocynnau cyn yr Eisteddfod. Ni fydd pobl yn gallu cyrraedd ar y diwrnod a phrynu tocyn.

Wedi trafodaeth, cytunwyd y bydd tocynnau dydd yn unig ar gael. Cytunwyd y dylid codi £10 ar oedolion a £5 i blant dan 10 oed.

Cynigydd: Elen Williams, Morgannwg

Eilydd: Delun Evans, Sir Benfro

Fe wnaeth Rhianwen rannu amserlen arfaethedig yr Eisteddfod a gofyn i aelodau'r pwyllgor am unrhyw adborth.

Nododd Caryl Hâf fod cystadleuwyr y ddeuawd/triawd doniol a'r unawd cerdd yn tueddu i ddefnyddio microffonau radio. Oherwydd yr angen i ddiheintio'r rhain, byddai gwahanu'r ddwy gystadleuaeth yn rhoi mwy o amser i'r technegwyr sain.

Cytunodd y pwyllgor i gynnal y gystadleuaeth canu emyn rhwng cystadleuaeth y ddeuawd/triawd doniol a'r unawd cerdd.

Pwynt Gweithredu 5: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau amserlen yr Eisteddfod fel y cytunwyd.

3. Gwledd o Adloniant – 5-6 Mawrth 2022

Hysbysodd Sian y pwyllgor fod CFFI Cymru wedi llogi Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot.

Rhannodd aelodau'r pwyllgor eu pryderon y gall lleoliadau sirol fod â chyfyngiadau yn eu lle o hyd, a fyddai'n caniatáu i nifer fechan o aelodau fod ar y llwyfan ar yr un pryd. Nododd yr aelodau fod llawer o siroedd yn cychwyn ysgrifennu ac ymarfer ym mis Rhagfyr, felly bydd angen gwneud penderfyniad yn fuan. Nododd Caryl Hâf fod staff yn rhannu'r un pryderon, yn dilyn cyfarfod staff.

Cynhelir cyfarfod cystadlaethau FfCCFFI ar 13 Tachwedd. Cytunwyd y dylid anfon llythyr at y pwyllgor hwn i ddwyn sylw at y gwahanol gyfyngiadau sydd yn eu lle ar gyfer y ddwy wlad ar hyn o bryd. Dylid nodi yn y llythyr hwn na all Cymru gynnal y gystadleuaeth Pantomeim i'w gapasiti llawn ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau.

Gofynnodd Sian i'r holl siroedd drafod â'u mannau cyfarfod er mwyn deall pa gyfyngiadau mae'n holl glybiau yn eu hwynebu.

Anogir y siroedd hynny sy'n wynebu cyfyngiadau ac na fydd yn gallu cynnal y pantomeim fel oeddent wedi'i obeithio i anfon llythyrau at bwyllgor cystadlaethau FfCCFFI.

Pwynt Gweithredu 6: Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at FfCCFFI i fynegi pryderon am gystadleuaeth y Pantomeim..

C/23/2022 CADARNHAU RHEOLAU CYSTADLAETHAU

1. Diwrnod Chwaraeon – 19 Mehefin 2022

Cadarnhawyd fod gan FfCCFFI y cystadlaethau dilynol:

- Hoci 'Rush' Merched 17-28
- Dodgeball Dynion 17-28
- Ultimate Frisbee 10 – 16

Hysbysodd Rhianwen y pwyllgor fod yr hoci 'rush' sydd wedi'i gynnwys yng nghystadlaethau FfCCFFI yn fath newydd o hoci ac mae'r rheolau yn wahanol i rai'r hoci cymysg blaenorol.

Awgrymodd y pwyllgor y dylid cynnwys y cystadlaethau athletau dilynol yn Niwrnod Chwaraeon CFFI Cymru:

- Ras gyfnewid
- 100 medr
- 800 medr
- Bwrw maen
- Disgen
- Naid Hir

Cytunwyd i gyflwyno categorïau bechgyn iau (dan 16) genethod iau (dan 16), dynion (dan 28) a merched (dan 28) ar gyfer y cystadlaethau uchod.

Byddai'r cyntaf ym mhob cystadleuaeth yn cynrychioli ei sir ar lefel Cymru.

Cafwyd trafodaethau ynghylch ychwanegu cystadleuaeth rygbi bach iau cymysg. Bydd CFFI Cymru yn trafod â'r cwmni yswiriant i weld a oes unrhyw gyfyngiadau ar yr oedrannau a all gystadlu gyda'i gilydd. Os bydd unrhyw gyfyngiadau â'r rygbi bach cymysg, cytunwyd y dylid cyflwyno Rownderi Iau yn lle hynny.

Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau fydd 1 Mehefin.

Pwynt Gweithredu 7: Bydd CFFI Cymru yn creu set drafft o reolau'r Diwrnod Chwaraeon, i'w cymeradwyo yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

2. Sioe Frenhinol Cymru – 18-21 Gorffennaf 2022

Rhannwyd rheolau drafft y cystadlaethau fel y gallai aelodau'r pwyllgor eu gweld.

Cystadleuaeth 1: Arddangosfa'r Ffederasiwn

Mae Dŵr Cymru wedi holi a allent ddarparu beirniad ar gyfer y rownd derfynol yn Sioe Frenhinol Cymru. Cytunodd aelodau'r pwyllgor i hyn.

Cystadleuaeth 6: Canu

Cytunodd y pwyllgor y byddir yn caniatáu defnyddio cymysgedd o ganeuon yn y gystadleuaeth grŵp a'r gystadleuaeth unawd.

Cystadleuaeth 8: Hyrwyddo eitem ar gyfer defnydd amgen

Cytunwyd i newid y drefn marcio fel a ganlyn:

Hyrwyddo'r Cynnyrch: 70

Syniad: 30

Cystadleuaeth 19: Barnu Cobiau Cymreig Adran B

Cytunwyd y dylid diddymu'r geiriau 'Cobiau Cymreig' o deitl y gystadleuaeth.

Cystadleuaeth 25: Her Sgiliau yn y Fan a'r Lle

Cytunwyd y dylid cael thema ar gyfer pob dydd:

- Llun - Coginio
- Mawrth – Gwaith Llaw
- Mercher - Amaethyddiaeth
- Iau - Cyffredinol

Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau fydd 29 Mehefin.

Pwynt Gweithredu 8: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau Sioe Frenhinol Cymru fel y cytunwyd ac yn e-bostio'r rheolau diweddaredig at y siroedd.

C/24/2022 EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD

Bydd eitemau'r agenda yn cynnwys:

- Adborth gan FfCCFfl ynghylch y Wledd o Adloniant
- Rheolau'r Diwrnod Chwaraeon
- Cynllun Wrth Gefn – Barnu Stoc

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Tachwedd am 7yh trwy gyfrwng Zoom.

Bydd cyfarfod mis Rhagfyr hefyd yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom ar 14 Rhagfyr. Tynnir enwau o het i benderfynu trefn y Wledd o Adloniant yn y cyfarfod hwn.

C/25/2022 ETHOL SWYDDOGION Y PWYLLGOR

1. Is-gadeirydd

Fe wnaeth Siôn Evans gynnig enw Sioned Davies, Ceredigion.

Eiliodd Rhiannon Davies y cynnig hwn.

Derbyniodd Sioned y swydd.

Fe wnaeth Sian groesawu Sioned i'r tîm a diolch iddi am dderbyn y swydd.

C/26/2022 UNRHYW FATERION ERAILL

Cystadleuaeth torri cyw iâr yn y Ffair Aeaf: Nododd Sian y cafwyd rhywfaint o ddryswch yn flaenorol ynghylch sut ddylid cyflwyno'r cyw iâr i'r beirniad. Awgrymwyd y dylid creu fideo arddangos fel bydd aelodau yn gwybod beth y caniateir iddynt wneud a beth na chaniateir. Cytunodd y pwyllgor y byddai hyn yn awgrym da ac y byddai'n helpu i gadarnhau'r rheolau.

Pwynt Gweithredu 9: Bydd CFFI Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu fideo arddangos a'i anfon at siroedd.

WhatsApp: Atgoffodd Sian yr holl siroedd i ofyn i'w cynrychiolwyr anfon eu manylion at CFFI Cymru fel y gellir eu cynnwys yn y grŵp WhatsApp.

Nid oedd unrhyw faterion eraill, felly cyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 21.38yh.

PWYNTIAU GWEITHREDU	SYLWADAU
Pwynt Gweithredu 1: Bydd CFFI Cymru yn newid rheol Cystadleuaeth Cywain ac yn e-bostio'r diweddariad at y siroedd.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 2: bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau'r Cneifio â Gwelleifiau ac yn anfon diweddariad at y siroedd a ddylai gynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant cneifio.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 3: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau'r rheolau ffensio ac yn anfon rheolau diweddaredig y Diwrnod Gwaith Maes at y siroedd.	Cwblhawyd

Pwynt Gweithredu 4: bydd CFFI Cymru yn cynnwys y cynllun wrth gefn newydd yn y Rheolau Cyffredinol a'r rheolau barnu stoc.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 5: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau amserlen yr Eisteddfod fel y cytunwyd.	Cwblhawyd, ond mae rhagor o newidiadau wedi'u gwneud ers y cyfarfod, oherwydd rhesymau amrywiol.
Pwynt Gweithredu 6: Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at FfCCFFI i fynegi pryderon am gystadleuaeth y Pantomeim..	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 7: Bydd CFFI Cymru yn creu set drafft o reolau'r Diwrnod Chwaraeon, i'w cymeradwyo yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.	Cwblhawyd
Pwynt Gweithredu 8: Bydd CFFI Cymru yn diweddarau rheolau Sioe Frenhinol Cymru fel y cytunwyd ac yn e-bostio'r rheolau diweddaredig at y siroedd.	Cwblhawyd